O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 79 (Cy. 36) (C. 6)

# RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ("Deddf 2010") o ran Cymru.

Mae erthygl 2 yn pennu darpariaethau Deddf 2010 a ddaw i rym (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cychwyn) ar 1 Ebrill 2016 o ran Cymru yn unig. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (p. 23) i gyflwyno fframwaith cyfreithiol newydd mewn perthynas â diogelwch cyforgronfeydd dŵr mawr.

Mae erthygl 3 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dygwyd darpariaethau canlynol Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 1 (*y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 2 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 2 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 3 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 3 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 4 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 4 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 5 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 6 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 6 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adrannau 7 i 10 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 11 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Adran 11 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 12 | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 13 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 14 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 15 *(yn rhannol)* | 18 Ionawr 2011 | 2011/95 (C. 4) |
| Adran 15 *(y gweddill, o ran Cymru yn unig)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 16 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 17 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 17 *(y gweddill)* | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 18 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 18 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Tachwedd 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 19 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 20 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 21 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 22 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 22 *(y gweddill)* | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 23 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 24 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 25 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 26 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 27 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adrannau 28 a 29 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 30 *(yn rhannol)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 30 *(y gweddill)* | 1 Awst 2012 | 2012/2000 (C. 79) |
| Adran 31 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Adran 33 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 33 *(yn rhannol o ran Lloegr)* | 30 Gorffennaf 2013 | 2013/1590 (C. 64) |

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 34 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adran 35 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 36 *(yn rhannol)* | 1 Medi 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 36 *(y gweddill)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 37 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Adrannau 38 a 39 *(yn rhannol)* | 18 Ionawr 2011 | 2011/95 (C. 4) |
| Adrannau 38 a 39 *(y gweddill)* | 1 Rhagfyr 2011 | 2011/2856 (C. 101) |
| Adrannau 40 a 41 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adrannau 42 a 43 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 42 *(y gweddill o ran Cymru yn unig)*. | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 44 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Adran 45 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Adran 45 *(y gweddill, o ran Cymru yn unig)* | 1 Ionawr 2015 | 2014/3155 (W. 317) (C. 137) |
| Adrannau 46 a 47 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| *Yn Atodlen 1—* | | |
| Paragraffau 15 a 16 *(yn rhannol)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 17 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Atodlen 1 (y gweddill) | 1 Awst 2012 | 2012/2000 (C. 79) |
| *Yn Atodlen 2—* | | |
| Paragraffau 1 i 24 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 1 i 24 (*o ran* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| *Cymru yn unig)* | | |
| Paragraff 25 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraffau 26 a 27 | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Paragraff 28 | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraffau 29 a 30 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 29 a 30 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 31, 32(1) i (3) a (5) i (7), 33 a 34 | 6 Ebrill 2012 | 2012/879 (C. 25) |
| Paragraffau 35 a 36 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 35 a 36 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraff 37 | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 38 a 39 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 38 a 39 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 40, 41, 43 a 44 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 45 i 47 (*o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraffau 45 i 47 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraff 48 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 49 *(o ran Lloegr yn unig)* | 19 Gorffennaf 2011 | 2011/1770 (C. 7) |
| Paragraff 49 (*o ran Cymru yn unig)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 50 i 53 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 54 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |

| *Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Paragraff 54 *(y gweddill)* | 6 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| *Yn Atodlen 4—* | | |
| Paragraff 1 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 2, 4, 7, 10, 12, 22, 25, 27, 30, 31, 32, 33 a 37 -*(yn rhannol)* | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| Paragraffau 2, 4, 7, 10, 12, 22, 25, 27 a 33 *(y gweddill o ran Lloegr yn unig).* | 30 Gorffennaf 2013 | 2011/2204 (C. 80). |
| Paragraffau 3, 5, 6, 8, 9, 11, 13 i 21, 23, 24, 26, 28, 29, 34 i 36 a 41 *(o ran Lloegr yn unig).* | 30 Gorffennaf 2013 | 2013/1590 (C. 64) |
| Paragraffau 38 i 40, 42 a 43 | 1 Hydref 2011 | 2011/2204 (C. 80) |
| *Yn Atodlen 5—* | | |
| Paragraffau 1 a 2 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraff 3 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |
| Paragraff 4 | 1 Ebrill 2011 | 2011/694 (C. 25) |
| Paragraffau 5 a 6 *(yn rhannol)* | 1 Hydref 2010 | 2010/2169 (C. 108) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 79 (Cy. 36) (C. 6)

# RHEOLI PERGYL LLIFOGYDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 48(2) a 49(3)(i) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**).

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Deddf 2010" yw Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010; ac

(b) ystyr "Deddf 1975" yw Deddf Cronfeydd Dŵr 1975(**2**).

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016**

**2.** Daw'r darpariaethau canlynol yn Neddf 2010, i'r graddau nad ydynt wedi eu cychwyn eisoes, i rym ar 1 Ebrill 2016—

(a) adran 33 (cronfeydd dŵr);

(b) paragraffau 2 i 11, 13 a 14 o Atodlen 4 (cronfeydd dŵr);

(c) paragraff 12 a pharagraffau 15 i 19 o Atodlen 4 ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw

(**1**) 2010 p. 29.
(**2**) 1975 p. 23.

gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn (gweler erthygl 3);

(d) paragraffau 20 i 29, 33 i 36 a 41 o Atodlen 4.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar y diwrnod cymwys o ran cyforgronfeydd dŵr mawr cyn-gychwyn**

**3.**—(1) Daw paragraff 12 a pharagraffau 15 i 19 o Atodlen 4 i Ddeddf 2010 i rym ar y diwrnod cymwys mewn perthynas ag unrhyw gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn.

(2) Mae cronfa ddŵr yn gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn os oedd wedi ei chofrestru fel cyforgronfa ddŵr fawr o dan Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) 1985(**1**) yn union cyn 1 Ebrill 2016.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), y diwrnod cymwys mewn perthynas ag unrhyw gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn yw pa bynnag ddyddiad yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn dynodi'r gronfa ddŵr honno yn rhinwedd hysbysiad o dan adran 2B(1) o Ddeddf 1975; a

(b) 1 Ebrill 2017.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo cyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn—

(a) wedi ei dynodi yn rhinwedd hysbysiad o dan adran 2B(1) o Ddeddf 1975; a

(b) mae ymgymerwr y gronfa ddŵr yn apelio yn erbyn y dynodiad o dan Reoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apelau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016(**2**).

(5) Mewn unrhyw achos pan fo paragraff (4) yn gymwys, y diwrnod cymwys yw pa bynnag ddyddiad yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'r apêl yn rhinwedd rheoliad 4(2) o Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apelau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016; a

(b) 1 Ebrill 2017.

---

(**1**) O.S. 1985/177.
(**2**) O.S. 2016/78.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
26 Ionawr 2016